



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mwy Nag Ailgylchu

Asesiad Effaith Integredig

ADRAN 1. PA GAMAU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED, A PHAM?

Mae 'Mwy nag Ailgylchu - Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti' yn adeiladu ar ganlyniadau *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* (2010) drwy ganolbwyntio ar reoli adnoddau ac atal gwastraff i ddatblygu Economi Gylchol i Gymru. Nod y *strategaeth hon* yw parhau ar daith Cymru tuag at ddyfodol lle rydym yn osgoi gwastraff, yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio cyn hired â phosibl ac yn defnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear.

Mae 'Mwy nag Ailgylchu' (*Y strategaeth*) yn cynnwys wyth prif gam gweithredu uchelgeisiol i gyflymu ein taith tuag at economi gylchol:

- 1) Byddwn yn cefnogi busnesau yng Nghymru i leihau eu hól troed carbon drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.
- 2) Byddwn yn darparu'r arfau i alluogi gweithredu cymunedol.
- 3) Byddwn yn rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio eitemau untro diangen, yn enwedig plastig.
- 4) Byddwn yn dileu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi.
- 5) Byddwn yn caffael ar sail sy'n rhoi blaenoriaeth i nwyddau a chynnyrch sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailweithgynhyrchu, eu hadnewyddu a'u hailgylchu neu sy'n dod o ddeunyddiau cynaliadwy, carbon isel, fel pren.
- 6) Byddwn yn ymdrechu i gyflawni'r cyfraddau ailgylchu gorau yn y byd.
- 7) Byddwn yn lleihau effaith casglu gwastraff o'n cartrefi a'n busnesau ar yr amgylchedd.
- 8) Byddwn yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff.

Y tymor hir

Mae'r *strategaeth* yn gosod y llwybr ar gyfer gweithredu dros y degawd nesaf gan adeiladu ar waith dros yr 20 mlynedd diwethaf i sicrhau dim gwastraff erbyn 2050.

Dros y degawd nesaf, mae'n debygol y bydd pandemig Covid-19 ac addasu i adael yr UE yn parhau i effeithio ar y Deyrnas Unedig.

Rhagwelir y bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd a chynhesu byd-eang yn fwy eithafol. Mae angen gweithredu'n gyflym i fynd i'r afael â diflaniad rhywogaethau a cholli bioamrywiaeth, sy'n effeithio ar ein holl ecosystemau, gan gynnwys effaith plastig ar dir, mewn afonydd ac yn ein moroedd.

Mae Cymru'n defnyddio'r hyn sy'n cyfateb i werth 2.6 planed o adnoddau; pe bai pawb yn y byd yn defnyddio'r un faint â dinasyddion cyffredin Cymru, byddai angen 2.6 planed. Nid yw'r defnydd hwn yn gynaliadwy a rhaid ei leihau i un blaned, sef ein cyfran deg. Mae bron i hanner cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a thros 90% o'r bioamrywiaeth a gollir yn deillio o echdynnu adnoddau a phrosesu'r cynnyrch a ddefnyddiwn.

Bydd y *strategaeth* yn symud Cymru tuag at economi gylchol, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau amgylcheddol a chreu cyfleoedd economaidd a chymdeithasol ar yr un pryd â chyfrannu at gyflawni adferiad gwyrdd a chyfiawn o'r pandemig.

Atal

Nid dim ond â diwallu'r heriau a wynebier y mae a wnelo'r *strategaeth*; mae hefyd yn ymwneud â manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o ddull gwell o ddefnyddio adnoddau. Yn ganolog i'r *strategaeth hon* mae agenda'r Llywodraeth ar gyfer gwlad decach, wyrddach a mwy ffyniannus. Mae cyfleoedd economaidd eisoes yn cael eu creu drwy ailfeddwl am y deunyddiau rydym yn eu defnyddio a sicrhau bod cynnyrch yn cael eu defnyddio'n gynhyrchiol am gyn hired â phosibl. Mae tystiolaeth wedi dangos bod i'r newid hwn hefyd y potensial i wneud arbedion o hyd at £2bn i economi Cymru¹, creu swyddi 'gwyrdd', a gwella cydnerthedd Cymru yn erbyn costau cynyddol ac adnoddau cynyddol brin.

Mae manteision economaidd posibl yn mynd law yn llaw â manteision cymdeithasol, wrth i bobl ledled Cymru gael eu cefnogi i ddysgu sgiliau a chymryd camau i gael gwaith. Mae'r economi sylfaenol yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael i harneisio adnoddau lleol er budd yr economi leol ac mae ailddefnyddio ac ailgylchu yn elfennau pwysig o hyn. Mae'r *strategaeth* yn tynnu sylw at enghreifftiau o arferion da sy'n bodoli ledled Cymru a'i nod yw gwneud y rhain yn norm yn eu sectorau.

Integreiddio

Mae'r *strategaeth hon* wedi'i hintegreiddio â strategaethau a chynlluniau allweddol ar draws y Llywodraeth, gan gynnwys y Cynllun Cyflawni Carbon Isel, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, y cynllun Adferiad Economaidd a Chydnerthedd a gyhoeddir yn fuan, ac Ail-greu ar ôl Covid: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae hefyd yn cyflawni yn erbyn meysydd allweddol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a'r blaenoriaethau a nodir yn ein Polisi Adnoddau Naturiol statudol. Mae'r economi gylchol yn elfen bwysig o ddogfen Ail-greu ar ôl Covid-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau. Bydd y *strategaeth hon* yn gwneud cyfraniad mawr tuag at waith ar Adferiad Gwyrdd.

Cydweithio

Wrth ddatblygu'r *strategaeth hon*, gwnaethom weithredu mewn dull trawslywodraethol, gan nodi tua 30 o adrannau allweddol y llywodraeth a chysoni'r camau gweithredu rhwng adrannau er mwyn newid i economi gylchol. Dylai'r economi gylchol fod yn rhan annatod o bopeth a wnawn. Mae'r *strategaeth* yn adleisio'r dull economaidd strategol a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r cynllun Adferiad Economaidd a Chydnerthedd a gyhoeddir cyn bo hir, yn enwedig y ffocws ar ddatblygu economaidd rhanbarthol a'r Contract Economaidd, sydd ill dau yn cynnwys datgarboneiddio ac effeithlonrwydd adnoddau fel elfennau allweddol ynddynt. Mae cysylltiadau clir hefyd wedi'u gwneud â dogfennau eraill, gan gynnwys y Cynllun Cyflawni Carbon Isel a'r blaenoriaethau cyffredinol yn y Polisi Adnoddau Naturiol statudol. Rydym yn parhau i weithio ar draws y Llywodraeth i edrych ar gyfleoedd i roi adferiad gwyrdd ar waith a dylanwadu ar amrywiaeth o feysydd polisi a chyflawni fel tai, trafnidiaeth, seilwaith, adfywio a'r economi.

Rhoi Llais

Agorodd yr ymgynghoriad ar y *strategaeth* ar 19 Rhagfyr 2019 gyda digwyddiad lansio cymunedol yn Llangollen a daeth i ben ar 24 Ebrill 2020. Cynhaliwyd dros 40 o

¹ Ellen MacArthur Foundation a Wrap (2013) Wales and the Circular Economy – Fraudable system conditions and economic opportunities <http://www.wrap.org.uk/node/17570>


ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru a thu hwnt, gydag un digwyddiad yn Llundain, gan ymgysylltu'n weithredol â thua 1,000 o ddinasyddion a rhanddeiliaid rhwng y digwyddiadau hyn a'r ymgynghoriad ysgrifenedig. Roedd y digwyddiadau'n ddwyieithog ac yn cael eu cadeirio gan siaradwr Cymraeg, gan annog siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan weithredol er mwyn sicrhau bod yr ymatebion yn adlewyrchu effeithiau'r strategaeth ar yr iaith.

Yn ogystal â'r digwyddiadau agored cyffredinol, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau penodol ar gyfer grwpiau penodol gan gynnwys pobl ifanc, busnesau, awdurdodau lleol, y sector gwastraff, grwpiau amgylcheddol, academia a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Cynhaliwyd digwyddiadau cymunedol gyda'r nos ac mewn lleoliadau mewn cymunedau gan gynnwys neuaddau lleol, colegau a chanolfannau hamdden i annog presenoldeb.

Digwyddiadau Ymgynghori Mwy Nag Ailgylchu Chwefror & Mawrth 2020

Lle rydym wedi bod?



Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion, gan gynnwys crynodeb un dudalen. Yna, fe wnaethom gysylltu â 1,000 o ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill drwy gyfres o weminarau i drafod materion allweddol sy'n berthnasol i'r strategaeth a oedd yn datblygu, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, canol trefi ac ailddefnyddio. Roedd y rhain yn gyfle i rannu syniadau ac awgrymiadau i'n helpu i gyd-gynhyrchu dogfen derfynol. Mae ymrwymiad yn y ddogfen *strategaeth* i barhau â'r ymgysylltu hwn.

Un o'r themâu allweddol yw darparu'r arfau i alluogi gweithredu cymunedol. Byddwn yn hyrwyddo seilwaith cymunedol sy'n helpu dinasyddion i leihau gwastraff, gan gynnwys dim gwastraff a siopau dim plastig, aildodsbathu bwyd dros ben, ail-lenwi, siopau llogi cymunedol, llyfrgelloedd benthyca deunyddiau a chynlluniau cysylltiedig eraill.

Effaith

Mae effaith amgylcheddol a chymdeithasol lawn y cynnyrch rydym yn eu defnyddio wedi'u cuddio oddi wrthym i raddau helaeth, yn aml oherwydd bod y deunyddiau crai ynddynt yn cael eu cloddio a'u prosesu yn rhywle arall. Mae bron i 50% o allyriadau nwyon tŷ gwydr yn deillio o echdynnu a phrosesu adnoddau i greu'r cynnyrch a ddefnyddiwn.

Nod ein prif gamau gweithredu yw lleihau'r galw am adnoddau yng Nghymru, yn enwedig o ran deunyddiau crai, ar yr un pryd â datgarboneiddio ein cadwyni cyflenwi a hybu'r defnydd

o ddeunyddiau arloesol. Byddwn yn hyrwyddo arloesedd mewn systemau busnes; er enghraifft, annog busnesau i symud tuag at fodel 'nwyddau fel gwasanaeth'. Bydd economi gylchol yn cefnogi rhagor o arloesedd yn ei dro, gan ddod â chyfleoedd i fusnesau Cymru gystadlu'n fyd-eang ar yr un pryd â lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn sylweddol.

Costau, Arbedion a Mekanweithiau

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio hyd a lled y pwerau a'r cymhwysedd datganoledig i yrru Cymru tuag at economi fwy cylchol, gan gefnogi ymhellach y gwaith o gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu a'r ymateb ehangach i'r argyfwng hinsawdd. Rydym am i wariant y llywodraeth ysgogi arfer da; gan roi cyfrif am gostau oes gyfan, y deunyddiau a ddewisir, effaith o ran carbon a'r cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol sy'n gysylltiedig.

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai dull economi gylchol arbed £2 biliwn i economi Cymru, ar yr un pryd â chreu swyddi yng Nghymru drwy, er enghraifft, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu deunyddiau.

Bydd deddfwriaeth a ddatblygir i gefnogi camau gweithredu o fewn y *strategaeth hon* yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ôl yr angen.

ADRAN 7. I GLOI

7.1 Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'r cynigion wedi bod yn rhan o'r gwaith o'u datblygu?

Drwy gydol y gwaith o gynhyrchu'r strategaeth Mwy nag Ailgylchu cafwyd pwyslais cryf ar ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid, a bydd y dull hwn yn parhau drwy gydol y broses o roi'r *strategaeth* ar waith. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys tua 1,000 o ddinasyddion a rhanddeiliaid drwy gyfres o dros 40 o ddigwyddiadau dwyieithog a gynhaliwyd ledled Cymru. Roedd y digwyddiadau hyn yn cwmpasu lleoliadau daearyddol eang ac yn cynnwys brecwastau busnes, digwyddiadau cymunedol gyda'r nos, digwyddiadau cyhoeddus wedi'u hwyluso a digwyddiadau ac ymweliadau ag ysgolion a phrifysgolion er mwyn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o ddinasyddion.

Ar ôl yr ymgynghoriad, cynhaliwyd gweminarau i barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid gan gynnwys 1,000 yn rhagor o bobl.

Roedd y ddogfen ymgynghori wedi'i chynllunio'n benodol i fod yn fyr ac yn hygyrch er mwyn annog mwy o ymgysylltu. Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu'r canfyddiad y gallai economi gylchol adeiladu a chryfhau cyfleoedd mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Darparwyd fersiwn hawdd ei darllen, dogfen strategaeth mewn tudalen a fersiwn Gymraeg o'r ymgynghoriad. Nod y ddogfen strategaeth Mwy nag Ailgylchu yw bod yr un mor fyr a hygyrch i'r cyhoedd; gyda fersiwn Gymraeg a fersiwn Hawdd ei Darllen yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â hi.

Yn y *strategaeth*, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- Parhau â'n hymgysylltu rhagorol a pharhau i gydweithio â dinasyddion a rhanddeiliaid;
- Adnewyddu ein trefniadau llywodraethu i sicrhau bod mwy o leisiau'n cael eu clywed ac y craffir ar gynnydd;
- Datblygu set o ddangosyddion; bydd y rhain yn caniatáu i ddinasyddion a rhanddeiliaid ddilyn cynnydd a gallant ddal y *strategaeth* yn atebol i'w nodau.

7.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol – cadarnhaol a negyddol?

Bydd symud tuag at economi gylchol yn cael effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol ar yr amgylchedd naturiol, yr economi, pobl, cymunedau a diwylliant Cymru.

Bydd y *strategaeth hon* yn lleihau ôl troed ecolegol Cymru fel cenedl. Erbyn 2050, ein nod yw defnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r blaned (byw un blaned), ailgylchu 100% (dim gwastraff) a bod yn garbon sero net. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth drwy leihau'r defnydd o adnoddau naturiol ar gyfer cynhyrchu nwyddau bob dydd. Y system hinsawdd a bioamrywiaeth fyd-eang fydd y prif fuddiolwyr, ond bydd amgylchedd Cymru ei hun hefyd yn elwa e.e. o ostyngiadau mewn llygredd plastig uniongyrchol.

Bydd y sector cyhoeddus yn arwain y ffordd; bydd y *strategaeth* yn gyrru gostyngiad yn ôl troed carbon ac ecolegol prosiectau adeiladu, gan fynnu hefyd bod cyrff y sector cyhoeddus yn dilyn hierarchaeth gaffael gynaliadwy. Rydym am sicrhau mai caffael seiliedig ar eitemau

sydd â lefel uchel o gynnwys wedi'i aildddefnyddio, ei ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu fydd y dull diodyn ar gyfer y sector cyhoeddus yn y dyfodol. Bydd ein heconomi yn defnyddio llai o adnoddau, wrth i fusnesau a mentrau cymunedol sy'n seiliedig ar rannu, aildddefnyddio, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu, yn ogystal ag atal gwastraff a defnyddio adnoddau'n arloesol, gael eu cefnogi. Bydd cynnydd pellach yn ein cyfradd ailgylchu sydd gyda'r gorau yn y byd, er enghraifft, yn y sector busnes a'r sector cyhoeddus ac o ran deunyddiau newydd, yn helpu i sicrhau bod deunyddiau'n parhau i gael eu defnyddio.

Bydd economi Cymru yn elwa o weithredu'r *strategaeth hon*. Yn gyntaf, byddwn yn buddsoddi'n sylweddol mewn busnesau, yn y sector cyhoeddus ac mewn prosiectau cymunedol gan atal gwastraff, arloesi o ran defnyddio adnoddau a defnyddio modelau busnes cylchol. Bydd cyngor a chefnogaeth sylweddol yn cael eu cynnig hefyd i bob sector o gymdeithas, a fydd yn golygu y bydd ein busnesau'n arloesi, yn ychwanegu mwy o werth ac yn arbed costau. Yn gyffredinol, mae astudiaeth yng Nghymru wedi dangos y bydd lleihau'r defnydd o adnoddau yn creu arbedion cost o hyd at £2 biliwn i economi Cymru. Bydd lleihau gwastraff a pharhau i ddefnyddio deunyddiau yn creu marchnadoedd newydd ar gyfer y deunyddiau hynny yn y tymor hir, a bydd yr economi'n dod yn fwy cydnerth yn erbyn siociau prisiau byd-eang wrth i gadwyni cyflenwi gael eu cwtogi. Er mwyn i Gymru fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth, yn ogystal â rhoi adferiad gwyrdd ar waith yn sgil y pandemig, rhaid inni fynd ati o ddifrif i fuddsoddi yn yr economi werdd a diogelu ein hunain rhag newid hinsawdd yn awr.

Mae economi gylchol nid yn unig yn dda i'r amgylchedd, ond hefyd yn dda i bobl. Bydd hefyd yn gwreiddio rhai o'r newidiadau mewn ymddygiad rydym wedi'u gweld yn ystod y pandemig wrth i bobl ymgysylltu a chysylltu mwy â'u hamgylcheddau lleol. Er enghraifft, byddwn yn cyflwyno rhaglen sylweddol o ddatblygu sgiliau ar gyfer economi gylchol, o oedran ysgol i brentisiaethau, i raglenni ailhyfforddi ar gyfer oedolion. Bydd hyn yn cynyddu'r opsiynau i bobl Cymru ac yn cefnogi gwaith cynaliadwy ac ystyrlon. Mae mentrau economi gylchol cymunedol, fel mannau gwaith lleol, caffis atgyweirio a rhwydweithiau ailddosbarthu bwyd, nid yn unig yn cynnig manteision uniongyrchol o ran iechyd corfforol a lleddfu tlodi, ond hefyd o ran lles meddyliol drwy gynyddu cysylltiad pobl â'u hardal a'u cymuned leol, ac annog cydweithio. Bydd cefnogaeth i gadwyni cyflenwi bwyd a gweithgynhyrchu lleol hefyd yn cynyddu'r gefnogaeth i'r iaith Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol drwy sicrhau manteision economaidd ar draws cymunedau yng Nghymru. Efallai y bydd rhywfaint o amharu ar fusnesau, aelwydydd a sefydliadau o ganlyniad i newidiadau yn y gofynion ailgylchu, ond rydym yn gobeithio mai bach iawn fydd y rhain gyda chefnogaeth ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill. Yn y tymor hwy, gall ein diwylliant a'n gwerthoedd newid, gyda mwy o bobl yn gwerthfawrogi profiadau, cysylltiadau dynol a'u hardal leol uwchlaw prynu cynnyrch newydd.

7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Dyma'r saith nod llesiant sydd wedi'u rhestru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015):

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Bydd rhoi'r *strategaeth hon* ar waith yn cyfrannu at yr holl nodau hyn a byddwn yn cyhoeddi Asesiad Llesiant ar wahân.

Fel y nodir yn yr asesiad o'r effaith ar les economaidd, nod y *strategaeth hon* yw sicrhau manteision economaidd i Gymru a chynyddu ein ffyniant. Drwy gwtogi cadwyni cyflenwi, gallwn roi hwb i gydnerthedd economaidd a, thrwy barhau i ddefnyddio adnoddau, gallwn wireddu mwy o'u gwerth a manteisio ar gyfleoedd economaidd newydd. Mae gan economi gylchol y potensial i wneud arbedion o hyd at £2 biliwn i economi Cymru, ar yr un pryd â chreu swyddi 'gwyrdd', cynyddu cydnerthedd Cymru yn erbyn costau cynyddol a gwella diogelwch o ran y cyflenwad o adnoddau materol byd-eang. Bydd llawer o'r camau gweithredu yn y *strategaeth hon*, o gefnogi busnesau a chymunedau, i fuddsoddi mewn seilwaith, i sbarduno arloesedd a chefnogi atal ac ailddefnyddio, yn cynyddu ffyniant Cymru. Gall hefyd gefnogi'r iaith Gymraeg drwy annog cynaliadwyedd a chydnerthedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon, gyda phandemig Covid-19 a Brexit, rydym wedi gweld nad oes gan unrhyw economi imiwnedd rhag siociau byd-eang. Gallwn ragweld mwy o siociau i ddod, gyda mwy o dywydd eithafol yn sgil newid yn yr hinsawdd a niweidio gwasanaethau ecosystem yn sgil yr argyfwng bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae Cymru wedi dangos ei chydnerthedd. Bydd economi gylchol yn helpu i gynyddu cydnerthedd mewn tair ffordd. Yn gyntaf, bydd cydnerthedd economaidd yn cael ei gefnogi drwy gwtogi cadwyni cyflenwi a buddsoddi nawr yn sgiliau a diwydiannau'r dyfodol. Yn ail, bydd cydnerthedd amgylcheddol yn cael ei gefnogi drwy leihau ein hallyriadau carbon uniongyrchol ac anuniongyrchol, a lleihau rhannau eraill o'n hól troed ecolegol drwy ddefnyddio llai o adnoddau naturiol. Yn drydydd, bydd cydnerthedd cymdeithasol yn cael ei hybu drwy gefnogi mentrau cymunedol sy'n annog rhannu, ailddefnyddio, atgyweirio ac atal gwastraff, o'n dinasoedd a'n trefi i'n hardaloedd gwledig.

Yn anuniongyrchol, bydd y *strategaeth* yn gwneud Cymru'n lle iachach, bydd canolbwyntio ar gadwyni cyflenwi byrrach yn lleihau allyriadau carbon ac yn lleihau llygredd, gan annog gwell defnydd o fwyd ac ymgorffori teithio llesol mewn buddsoddiadau seilwaith. Mae'n debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd meddwl hefyd, drwy gefnogi gwaith a chynlluniau mwy cydweithredol sy'n seiliedig ar bobl. Byddwn yn sicrhau bod y manteision sy'n deillio o'r *strategaeth hon* yr un mor amlwg ledled Cymru, heb achosi anfantais annheg i unrhyw ardal neu grŵp penodol. Ymgynghorwyd ar y *strategaeth hon* ar hyd a lled y wlad, ac rydym yn anelu at barhau yn yr ysbryd hwn.

Mae economi gylchol o'i hanfod yn adfer ac yn adfywio, ac mae hynny'n wir i systemau naturiol a systemau cymdeithasol. Dangosodd profiad y pandemig, er ei fod yn achosi caledi cynyddol i lawer, fod pobl, lle'r oedd cysylltiadau da o fewn cymunedau, yn gwneud yn well ledled Cymru. Mae Cymru'n genedl o gymunedau ffyniannus, a bydd economi gylchol yn cynyddu hyn drwy gefnogi bwyd, siopa a theithio lleol a modelau cydweithredol. Mae dathlu

ein hardaloedd a'n busnesau lleol yn mynd law yn llaw â dathlu ein diwylliant a'n hiaith Gymraeg.

Yn olaf, mae'r *strategaeth hon* yn hanfodol er mwyn i Gymru fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Yn fyd-eang, ychydig iawn o amser sydd gennym i weithredu i atal newid trychinebus yn yr hinsawdd, ac mae un filiwn o rywogaethau dan fygythiad o ddiflannu. Mae dinistrio cynefinoedd er mwyn cael gafael ar adnoddau naturiol yn un o brif ysgogwyr colli bioamrywiaeth ac, ar draws y byd, mae 45% o'r holl allyriadau carbon yn gysylltiedig â chynhyrchu cynnyrch bob dydd. Mae lleihau ein defnydd o adnoddau a dod yn genedl dim gwastraff, carbon sero net erbyn 2050, ac annog eraill i wneud yr un fath, yn ddyletswydd arnom.

Mae'r *strategaeth hon* yn ddogfen fyw, a bydd yn esblygu ac yn newid wrth i ni brofi ac arloesi. Bydd y camau a gymerir yn cael eu hadolygu a bydd y dulliau gweithredu'n cael eu haddasu yn ôl yr hyn a ddysgwn. Byddwn yn parhau i adael i'n cymunedau a'n busnesau arwain y ffordd, gan ymgynghori'n aml â nhw ynglŷn â'u gweledigaeth nhw o Gymru'r dyfodol.

7.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?

Mae monitro'r *strategaeth* drwy gyfres o ddangosyddion yn elfen graidd o'n dull gweithredu yn ogystal ag ymgysylltu'n rheolaidd â dinasyddion a rhanddeiliaid. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi cyfres o dargedau a dangosyddion ond gan dderbyn y byddwn yn hyblyg ac yn newid ac yn datblygu'r rhain wrth ddysgu.

Dyma brif dargedau'r *strategaeth hon*:

Erbyn 2025

- Gostyngiad o 26% mewn gwastraff o linell sylfaen 2006-07
- Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi
- Gostyngiad o 50% mewn gwastraff bwyd y gellir ei osgoi
- Ailgylchu 70%

Erbyn 2050

- Defnyddio adnoddau un blaned
- Gostyngiad o 62% mewn gwastraff o linell sylfaen 2006-07
- Dim gwastraff
- Carbon sero net

Er mwyn gwerthuso'r cynnydd tuag at y targedau hyn, byddwn yn monitro cyfres o ddangosyddion, rhai ohonynt yr ydym eisoes yn casglu data ar eu cyfer, a rhai y mae data yn dal i gael ei ddatblygu ar eu cyfer. Byddwn yn cyhoeddi dogfen Dangosyddion ar wahân.

Bydd dangosyddion gweithgarwch yn cael eu monitro i ddarparu mwy o fanylion. Byddwn yn parhau i fonitro dangosyddion ailgylchu a gwastraff allweddol, megis cyfanswm gwastraff cartrefi, gwastraff a ailgylchir, a losgir, gyda a heb adfer ynni a thirlenwi. Byddwn yn ceisio ehangu ein gwaith monitro gwastraff masnachol a diwydiannol ac adeiladu a dymchwel, o ran cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir a chyfraddau ailgylchu, llosgi a thirlenwi. Mae is-

ddangosyddion, fel ôl troed carbon gwastraff, a chyfanswm cyfraddau ailgylchu deunyddiau penodol (e.e. bwyd, plastig) hefyd yn cael eu hystyried.